# Gwaelod y Garth

Cylchlythyr Wythnosol / Weekly Newsletter

**26.09.25**



## Gair gan y Pennaeth - Headteacher's Greeting

Cawsom wythnos o fentro ar sawl anturiaeth tu hwnt i safle'r ysgol yr wythnos hon, gyda phawb felly yn ddiolchgar iawn o weld y glaw yn cilio a'r haul yn tywynnu! Aeth dosbarthiadau 4C a 5C ar daith i Amgueddfa Lofaol Cymru (Bit Pit) ar ddydd Llun. Roedd gallu bod o dan y ddaear gyda'r glowyr yn brofiad bywiog ac arbennig i sbarduno gwaith y tymor hwn ar y diwydiant glo yn ein Cynefin.

Erbyn Dydd Mercher, tro Dosbarth 6C oedd mynd ar antur. Anodd yw cyfleu cymaint y bu mwynhad 6C ar eu taith preswyl i Langrannog. Cyfle arbennig iawn i fagu annibyniaeth, i gwrdd â ffrindiau newydd cyn Blwyddyn 7 ac i fentro ar nifer o brofiadau anturus newydd. Bu'r daith yn llawn profiadau cyfoethog a fydd yn aros yn y cof am flynyddoedd lawer i ddod. Hoffwn ddiolch i Mrs Davies am drefnu, i'n disgyblion am fod ar eu gorau, am herio eu hunain i'r eithaf ac am gymryd pob cyfle. Rydym yn hynod, hynod falch ohonoch 💙.

Rwy'n falch o allu rhannu dyddiad gyda chi i'r dyfodol. Mae **Menter Caerdydd** yn cynnig **Gweithdy Darllen** i rieni a fydd yn digwydd yn yr ysgol ar Dachwedd 17 am 6pm. Mae hwn yn sesiwn untro i helpu rhieni i deall sut mae cefnogi sgil pwysig darllen plant. Braf fyddai cael cynrychiolaeth cymaint o deuluoedd ag sydd yn bosib yn y cyfarfod.

✲ ✲ ✲ ✲ ✲ ✲

With many visits outside school this week, we were fortunate to welcome the sun after last week's heavy rain, and we certainly took advantage of the weather! Dosbarth 4C and 5C visited the National Coal Museum (Bit Pit) on Monday where they had the unique experience of being underground in the coal mine with experienced miners. A thought-provoking way indeed to spark the term's work on the coal industry in our *Cynefin*.

It was Dosbarth 6C's turn to go on an adventure on Wednesday as they embarked on their residential trip to Llangrannog. A superb opportunity to develop independence, to meet new friends before Year 7 and to experience new activities and adventures. This was an experience for all that will be remembered by all for many years to come. I would like to thank Mrs Davies for organising and to all in 6C for being at their best, for challenging themselves to the full and for grasping every opportunity. We are so proud of each and every one of you 💙.

Promoting the important skill of reading is important to us at Gwaelod y Garth and I am pleased to be able to share a date with you in the future which allows us to support you with your child's reading. Menter Caerdydd is offering a reading workshop for parents which will take place at school on Monday, November 17th at 6pm. This is a one-off session to help parents understand how to support children's reading. We would all be grateful to see as many families as possible present.

## Dyddiadau Pwysig
## *Important Dates*

**14/10/25 & 15/10/25**
Nosweithiau Rhieni
Parents' Evenings

**15/10 – 17/10**
Year 6 (2E) Llangrannog
Taith Breswyl / Residential

**Gwener / Friday 24/10/25**
Diwrnod HMS
*INSET Day*

**Llun / Monday 18/11/25**
Gwiethdy Darllen i Rieni
Reading Workshop for parents

Cofiwch am ein calendr byw ar dudalen cartref y wefan.

*Our live calendar is on our school website's homepage.*

## Bws Beics

Dyma ddyddiadau'r bws beics ar gyfer y tymor:

Dydd Gwener Hydref 10

Dydd Gwener Tachwedd 14
Dydd Gwener Tachwedd 28
Dydd Gwener Rhagfyr 12

**Bws Beics: Croeso i aelodau newydd bob amser!**

***Bike Bus: New members always welcome!***

## Bike Bus

The bike bus dates for this term are:

Friday October 10

Friday November 14
Friday November 28
Friday December 12






## Rags to Riches

**Casgliad dillad ail-law**
**Pre-loved clothes collection**

Dydd Mawrth - Tuesday: 25/11/25

Dydd Gwener - Friday: 20/3/25

Dydd Gwener – Friday: 26/6/25

## CRhA / *PTA*

Cofiwch am.... *Don't forget....*

**BINGO**
Cyn hanner tymor / *Before half term*
Dyddiad i'w gadarnhau / *Date TBC*

**05.12.25**
Ffair Nadolig / *Christmas Fayre*

**Diolch** i'r GRhA am eich gwaith caled!
*A big **diolch** to our fantastic PTA!*

menter caerdydd

Rhif Elusen / Charity Number: 1098606
Rhif Cwmni / Company Number: 4576565



Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

CARDIFF
CAERDYDD

## AM DDIM I RIENI /FREE FOR PARENTS

***

# 'DARLLEN GYDA'CH PLENTYN'
# 'READING WITH YOUR CHILD'

***

### CYFLWYNIAD, YN SAESNEG, I RIENI AR SUT I WRANDO AR A DATBLYGU SGILIAU DARLLEN EU PLENTYN

***

### A PRESENTATION, IN ENGLISH, FOR PARENTS, ON HOW TO DEVELOP YOUR CHILD'S READING SKILLS

The session will focus on the first steps of reading, the alphabet, 'Tric a Chlic' phonics, developing comprehension skills; songs and activities to expand vocabulary.





## Ysgol Gwaelod y Garth
## Dydd Llun/Monday
## 17/11/25 6:00pm





www.mentercaerdydd.cymru

## CWRS CODI HYDER CYMRAEG - RHAD AC AM DDIM!

Aethoch chi i ysgol gyfun Gymraeg ond 'dych chi wedi colli eich hyder i ddefnyddio'ch Cymraeg?

Os felly, ymunwch â'r cwrs Codi Hyder. Bydd hyn yn gyfle gwych i ganolbwyntio ar beth hoffech chi wella am eich Cymraeg gyda phobl sydd yn union yr un cwch â chi, a thiwtor Cymraeg profiadol.

*Bob nos Lun; 10 wythnos; 18.30 - 20.30; 29/09/25 - 15/12/25; Prifysgol Caerdydd*
*Dyddiad Cau: 22/09/25*

**Cofrestrwch yma:** https://learnwelsh.cymru/learning/course/614c152e-b089-f011-b855-d14c987c1e60/
Am fwy o wybodaeth, ebostiwch Anna Fflur Jones: jonesa251@cardiff.ac.uk

menter caerdydd

## WELSH CONFIDENCE BUILDING COURSE - FREE!

Did you go to a Welsh comprehensive school but you've lost your confidence in using your Welsh?

If so, join the Confidence Building course. This will be a great opportunity to focus on what you would like to improve about your Welsh with people who are exactly the same boat as you, and an experienced Welsh tutor.

*Every Monday night; 10 weeks; 18.30 - 20.30; 29/09/25 - 15/12/25; Cardiff University*
*Closing Date: 22/09/25*

**Register here:** https://learnwelsh.cymru/learning/course/614c152e-b089-f011-b855-d14c987c1e60/
For more information, please email Anna Fflur Jones: jonesa251@cardiff.ac.uk

4C a 5C yn mwynhau yn yr Amgueddfa Lofaol

4C and 5C having fun in the Big Pit









6C wrth eu boddau yn Llangrannog!

6C having the time of their lives in Llangrannog!







## Cymro / Cymraes yr Wythnos

## Welsh learners of the week









## Dysgwyr yr Wythnos

## Learners of the week